TECHNIQUEST

Gweithgareddau Cyn ac ar Ôl Ymweliad Gweithdy Her Adeiladu Pontydd

2007

Cynnwys	Tudalen
Cyn ymweld Cyfnodau Allweddol 1 a 2	2
Ar ôl ymweld Cyfnodau Allweddol 1 a 2	4

Defnyddiau Cyn ac ar Ôl Ymweliad
Gweithdy Adeiladu Pontydd
Cyfnodau Allweddol 1 a 2

Diolch i chi am archebu lle ar y Gweithdy Adeiladu Pontydd. Dyluniwyd y defnyddiau cyn ymweliad er mwyn i'ch dosbarth ddod yn gyfarwydd â rhai o'r pethau y byddant yn eu profi yn ystod y Gweithdy.

Mae'r defnyddiau cyn ac ar ôl ymweliad yn ogystal a'r Gweithdy'n cynnwys elfennau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Grwpio a dosbarthu defnyddiau.
CA1: adnabod ac enwi mathau cyffredin o ddefnyddiau a bod rhai o'r defnyddiau hyn i'w cael yn naturiol.
Darganfod y defnydd sy'n cael ei wneud o amrywiaeth o ddefnyddiau cyffredin.

CA2: cymharu defnyddiau pob dydd ar sail eu nodweddion, gan gynnwys caletwch, cryfder, hyblygrwydd a chysylltu'r nodweddion hynny â'r defnydd pob dydd o'r defnyddiau.

Gweithgareddau Cyn Ymweliad:
Cyfnod Allweddol 2:

Geirfa
Disgrifiwch y geiriau canlynol fel y gallwch ffurfio geirfa o dermau:
Tyndra
Cywasgiad
Crogiant
Bwa
Trawst

Cyfnodau Allweddol 1 a 2

Tynnu Lluniau o Bontydd

Gan ddefnyddio'r templed ar y dudalen ganlynol; ei llungopïo a'i rhannu i'r dosbarth. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ddyluniad ac yna dynnu llun o'u pont dros yr afon.

Tynnwch lun o bont dros yr afon

Gweithgareddau Ôl Ymweliad

Cyfnod Allweddol 1:

Defnyddiau adeiladu pontydd:
Gofynnwch i'ch dosbarth am eu syniadau ynghylch pa ddefnyddiau sy'n cael eu defnyddio i wneud pontydd go iawn. Awgrymwch ddefnyddiau megis cerrig, bric, metel, pren ond soniwch hefyd am ddefnyddiau anaddas megis papur, cortyn neu jeli. Trafodwch gyda'r grŵp, pam fod rhai defnyddiau'n fwy addas nag eraill ar gyfer adeiladu pontydd. Dywedwch fod cerrig, briciau ayb i gyd yn galed ac yn gryf ac felly'n dda am gynnal pwysau. Mae defnyddiau megis papur a chortyn, er yn eithaf cryf, yn feddal ac yn ysgafn o gymharu â briciau, cerrig a metel, ac felly ddim yn cynnal pwysau gystal.

Cyfnod Allweddol 2:
Cydweddu'r Pontydd:
Gan ddefnyddio'r templed ar y dudalen ganlynol; ei llungopïo a'i rhannu i'r dosbarth. Gofynnwch i'r dosbarth dynnu llinellau rhwng y lluniau a'r ysgrifennu gan gydweddu pob pont gyda'r enw cywir (mae un wedi'i gwblhau eisoes er mwyn rhoi enghraifft i'r plant)

Allwch chi roi'r enwau iawn ar y Pontydd hyn?

Tynnwch linell o'r enw at y llun sy'n perthyn iddo

Pont Fwa

Pont Clapper

Pont Grog

Pont Gantilifrog

Pont Gebl

Elusen addysgol a sefydlwyd ym 1986 yw Techniquest. Y genhadaeth a roddwyd iddi yw ysgogi, dal diddordeb ac annog myfyrwyr a'r cyhoedd yn eu profiad o wyddoniaeth. Mae hyn yn arwain at well dealltwriaeth a deialog gyda'r byd o'n hamgylch ac mae felly'n ein nerthu ac yn gwneud ein byd yn fyw hygyrch mewn amgylchedd wedi'i theilwra'n arbennig. Daw grant craidd Techniquest oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a dyma ei phrif raglen ar gyfer darganfod gwyddoniaeth. Mae hefyd y chweched ganolfan wyddonol arweiniol yn y byd. Y canlyniad y mae profiad Techniquest ei eisiau fwyaf yw gallu cyfrannu tuag at godi Safonau Cenedlaethol a chyfrannu buddion ychwanegol i'r Proffesiwn Dysgu. Gyda phroffil staff o gefndiroedd eang ac arbenigeddau cryf, mae Techniquest wedi datblygu'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu gwyddoniaeth drwy arddangosfeydd rhyngweithiol, cyflwyniadau theatrig a gweithdai labordai.

Am ragor o wybodaeth ynghylch gweithdai Techniquest, neu i drefnu ymweliad i Techniquest, ymwelwch â www.techniquest.org neu ffoniwch 02920 475 475